

AI DYMA'R AMSER I DDUW DEYRNASU DROS Y BYD?

Nodyn i'r siaradwr:

Â rhesymeg, cyflwyna'r dystiolaeth Ysgrhythurol mai ym 1914 y sefydlwyd Teyrnas Dduw; esbonia beth fydd y Deyrnas yn ei gyflawni yn y dyfodol agos

MAE ANGEN RHEOLAETH WELL AR DDYNOLRYW (4 mun.)

Pam nad yw llywodraethau dynol yn ymateb i anghenion eu dinasyddion? (Dia 29:2)

Does gan ddyn mo'r hawl na'r gallu i reoli ei hun yn iawn (Jer 10:23)

Mae ei ymdrechion i reoli wedi arwain at lawer o anghyfiawnder a dioddefaint (Pre 8:9, 11)

Yn ôl y Beibl bydd Teyrnas Dduw yn disodli rheolaeth dyn cyn bo hir (Da 2:44; 7:13, 14)

Pryd cychwynnodd rheolaeth Teyrnas Dduw a phryd bydd ei grym yn gyflawn?

DANIEL PENNOD 4—BREUDDWYD BROFFWYDOL AM REOLAETH (5 mun.)

Parodd Jehofa i'r Brenin Nebwchadnesar gael breuddwyd am reolaeth (Da 4:10-17, *BCND*)

Rhoddodd Duw ei ysbryd ar Daniel fel ei fod yn gallu dehongli'r freuddwyd [**Darllen rhannau allweddol o Daniel 4:20-27, *BCND***]

Yn gyntaf, cyflawnwyd y freuddwyd yn Nebwchadnesar ei hun (Da 4:28-37, *BCND*; *dp*-E 82-94)

Mae'r freuddwyd yn pwysleisio mai Jehofa sydd â'r hawl i ddewis pwy sydd i reoli'r ddynoliaeth

MAE'R FREUDDWYD YN RHAGFYNEGI RHEOLAETH TEYRNAS DDUW (16 mun.)

Mae'r broffwydoliaeth ag iddi gyflawniad llawnach ynglŷn â sefydlu Teyrnas Dduw (*it*-1-E 132-135)

Beth sy'n awgrymu bod y freuddwyd yn fwy na hanesyn diddorol am ddarostyngiad Nebwchadnesar?

(1) Rhoddwyd y freuddwyd ar *adeg* pryd oedd Duw newydd ganiatáu dymchwel ei deyrnas ddaearol

(2) Yr *unigolyn* a dderbyniodd y freuddwyd oedd yr union un a ddefnyddiodd Duw i ddarhod â rheolaeth yn Jerwsalem

(3) *Thema'r* freuddwyd yw hawl Duw i deyrnasu dros holl "lywodraethau'r byd" (Da 4:17, 25, 32, *BCND*)

(4) *Cyd-destun* y freuddwyd, sef llyfr Daniel, sy'n ein cyfeirio'n aml at ddyfodol dan reolaeth Teyrnas Dduw

(5) Ni fyddai proffwydoliaethau Daniel yn gwbl ddealladwy tan "*amser y diwedd*" (Da 12:4, 8, 9, *BCND*)

Yn llawnder ei gyflawniad mae'r goeden yn cynrychioli rheolaeth Jehofa

Am gyfnod, roedd brenhinoedd Israel yn cynrychioli rheolaeth Jehofa wrth iddyn nhw reoli yn Jerwsalem (1Cr 29:23)

Addawodd Jehofa y byddai un o ddisgynyddion Dafydd yn rheoli am byth (2Sa 7:16)

Rhagfynegodd Eseciel y byddai cynrychioliad rheolaeth Duw ar y ddaear yn cael ei ddifa, ond ymhen amser, ei adfer [**Darllen Eseciel 21:26, 27**]

Yn 607 COG, defnyddiodd Jehofa Nebwchadnesar i ddinistrio Jerwsalem; dyma gychwyn "saith cyfnod" yn ystod pryd y byddai atal ar reolaeth Duw (Da 4:16, *BCND*)

Cyfnod o ba hyd yw hwn?

[**Darllen Luc 21:24**] Meddai Iesu ynglŷn â Jerwsalem yn cynrychioli rheolaeth Duw, byddai'n cael ei "sathru dan draed hyd nes i amser y cenhedloedd . . . ddod i ben" (*w06*-E 7/15 6 ¶1-4)

Yr un cyfnod yw "amser y cenhedloedd" a'r "saith cyfnod" yn Daniel pennod 4

Yn ôl Iesu roedd "amser y cenhedloedd" yn mynd rhagddo yn ystod ei weinidogaeth ddaearol, felly os cyfrifwn o 607 COG ni allai saith blwyddyn lythrennol gyfateb i'r "saith cyfnod"

Mae "saith cyfnod," neu saith o flynyddoedd Beiblaidd, yn cyfateb i 2,520 o ddyddiau (*w06*-E 7/15 ¶1-2)

Â'r rheol yn "un flynyddyn am bob diwrnod," os cyfrifwn 2,520 o flynyddoedd o 607 COG down at 1914 OG (Nu 14:34; Esec 4:6)

Ym 1914, cychwynnodd Iesu ei reolaeth nefol fel Brenin penodedig Teyrnas Dduw

Fel disgynnydd i'r Brenin Dafydd, Iesu yw'r un sydd "iddo'r hawl" i reoli (Esec 21:27; Lc 1:32, 33)

CYN BO HIR, TEYRNAS DDUW BYDD YR UNIG REOLAETH (5 mun.)

Mae digwyddiadau er 1914 yn cadarnhau bod Teyrnas Dduw wedi'i sefydlu (Mth 24:3, 7-14; *w15*-E 6/15 22-24 ¶12-14)

Mae Iesu'n rheoli "yng nghanol [ei] elynion" nawr, ac yn fuan bydd ef yn "ennill y frwydr" (Sal 110:2, *BCND*; Dat 6:2)

Bydd rheolaeth Teyrnas Dduw yn dod â bendithion i bobl ffyddlon (*w14*-E 10/1 5-7)

Dyma'r adeg inni sefyll o blaid Teyrnas Dduw

[Glyna'n agos wrth y deunydd yn yr amlinelliad, a chadwa at yr amser a nodwyd ar gyfer pob rhan. Does dim angen darllen na thrafod pob testun y cyfeirir ato. Gweler y llyfr *Ministry School*, tudalennau 52-55, 166-169, a'r llyfryn *Darllen a Dysgu*, gwersi 4, 6, 8, 13, 14, 19]